
Art Directors & TRIP / Alamy Stock Photo

# Yr uchelwyr Normanaidd

**Mark Rathbone** sy’n archwilio sut cafodd yr uchelwyr Eingl Sacsonaidd eu trin gan William ac yn ystyried y rôl y chwaraeodd yr uchelwyr Normanaidd, gan gynnwys yr Esgob Odo, wrth reoli Lloegr

**Ffynhonnell A**

Yn y carchar, mae Waltheof yn cyffesu ei euogrwydd i William I ar ôl Gwrthryfel yr Ieirll yn 1076. Cyhoeddwyd y darlun yn 1903

1 Astudiwch Ffynhonnell A. Ydy’r ffaith fod y llun hwn wedi’i greu dros 800 mlynedd ar ôl y digwyddiad y mae’n ei ddarlunio yn golygu ei fod yn ddiwerth fel ffynhonnell hanesyddol? Rhowch resymau dros eich ateb.

Ar Ddydd Nadolig 1066, coronwyd William, Dug Normandi yn Frenin Lloegr yn Abaty Westminster, penllanw un o’r blynyddoedd mwyaf rhyfeddol yn hanes Lloegr. Yn y misoedd cythryblus yn dilyn marwolaeth Edward y Cyffeswr yn gynharach y flwyddyn honno, roedd y rhai eraill a oedd yn hawlio gorsedd Lloegr wedi’u dileu mewn cyfres o frwydrau gwaedlyd. Llofruddiwyd Harold Godwinson ar 14 Hydref ym Mrwydr Hastings, ynghyd â’i frodyr Gyrth a Leofwine. Roedd ei frawd arall Tostig eisoes wedi marw ym Mrwydr Stamford Bridge ar 25 Medi, a hefyd ei gynghreiriad, Harald Hardrada, Brenin Norwy.

Ond dim ond y dechrau oedd hyn o’r newidiadau a fyddai’n ysgubo ar draws Lloegr yn ystod y ddau ddegawd canlynol. Fe wnaeth William wobrwyo ei gefnogwyr Normanaidd amlycaf gyda theitlau a thiroedd Lloegr, yr oedd ef wedi’u cipio oddi wrth ei elynion Seisnig, fel teulu Godwinson. Er enghraifft, roedd Robert de Mortain, un o ddau hanner brawd William, wedi darparu 120 o longau ar gyfer llynges y goresgyniad Normanaidd a chafodd ei wobrwyo gan William gyda bron i 800 o faenorau, y mwyafrif yn y de orllewin, ond wedi’u gwasgaru ar draws 20 o siroedd Lloegr.

## Concwerwr estron

Ond i ddechrau roedd William yn fodlon caniatáu i rai o’r uchelwyr Eingl Sacsonaidd presennol i gadw eu tiroedd a’u teitlau, ar yr amod eu bod yn ei gydnabod ef yn frenin. Roedd yn awyddus i ymddangos fel ei fod nid yn unig yn goncwerwr estron, ond yn frenin a oedd yn cynrychioli cysondeb dilys gyda’i ragflaenwyr Eingl Sacsonaidd ac a oedd yn barod i weithio gyda’r uchelwyr Eingl Sacsonaidd. Ar adeg ei goroni, aeth William hyd yn oed ati i dyngu llw y byddai’n rheoli Lloegr yn yr un modd ag yr oedd y brenhinoedd Eingl Sacsonaidd gorau wedi’i wneud, cyhyd â bod y Saeson yn deyrngar iddo.

Dyma rai enghreifftiau – er gwaethaf eu cysylltiadau agos â Harold Godwinson (eu chwaer oedd ei wraig), roedd Edwin, Iarll Mercia, ynghyd â'i frawd Morcar, Iarll Northumbria, yn cael cadw eu teitlau a'r rhan fwyaf o'u tiroedd. Cafodd Gospatric, disgynnydd i'r Brenin Ethelred II, ei ddyrchafu'n Iarll Bernicia ar ôl cynnig swm mawr o arian i William am y teitl.

Fe wnaeth arglwydd Eingl Sacsonaidd arall, Waltheof, mab Siward, ffigur pwerus yng ngogledd Lloegr yn ystod teyrnasiad Canute (1016–35) ildio i William yn dilyn Brwydr Hastings. Yn 1070, yn yr hyn a ymddangosai fel arwydd o ffafr y Concwerwr, caniatawyd iddo briodi'r Iarlles Judith de Lens, nith William. Cafodd rhai eglwyswyr Eingl Sacsonaidd gadw eu swyddi hefyd am y tro, gan gynnwys yr Archesgobion Ealdred o Gaerefrog a Stigand o Gaergaint.

## Gwrthryfel Eingl Sacsonaidd

Ond nid oedd agwedd gymharol oddefgar a chymwynasgar William at o leiaf rai o'r uchelwyr Eingl Sacsonaidd wedi para'n hir, ac roedd hyn, i raddau helaeth oherwydd eu gweithredoedd nhw eu hunain. Yn 1068, fe wnaeth Edwin a Morcar adael llys William, gan ddychwelyd i'w tiroedd yng ngogledd Lloegr a dechrau gwrthryfel yn ei erbyn. Cawsant gefnogaeth gan Waltheof a Gospatric, yn ogystal ag Edgar Ætheling, y disgynnydd olaf i oroesi o dŷ brenhinol Wessex.

Roedd yr holl uchelwyr Eingl Sacsonaidd blaenllaw wedi dangos nad oedd modd ymddiried ynddyn nhw, drwy fradychu eu haddunedau o deyrngarwch i William mor gyflym. Doedd hi ddim yn syndod bod William wedi teithio i'r gogledd gyda'i fyddin i atal y gwrthryfel, gan adeiladu rhwydwaith o gestyll er mwyn hawlio rheolaeth. Ildiodd Edwin a Morcar yn gyflym yn Warwick a chawsant bardwn gan William, ond fe wnaeth Edgar a Gospatric ffoi i'r Alban. Erbyn 1071, roedd Edwin wedi marw ac roedd Morcar yn y carchar, a chafodd Waltheof ei ddienyddio yn y pen draw yn 1076 am gymryd rhan mewn gwrthryfel arall.

## Rheolaeth Normanaidd

Pan oedd Waltheof, yr olaf o'r Ieirll Eingl Sacsonaidd wedi mynd, yr uchelwyr Normanaidd oedd yn rheoli'r holl dir yn Lloegr. Pwy oedd perchnogion newydd yr holl dir hwnnw? Un enghraifft oedd Walter de Eureux, Iarll Rosmar, a ymladdodd gyda William yn 1066. Cafodd ei wobrwyo gyda'r teitl Iarll Salisbury, a'r tiroedd helaeth yn Wiltshire, Dorset a mannau eraill a oedd yn dod gyda'r teitl hwnnw.

Roedd William wedi mynd â llawer o'r tir hwn oddi wrth yr arglwyddi Eingl Sacsonaidd a oedd wedi dal y tir tan 1066. Er enghraifft, cafodd maenor Canford, un o'r mwyaf yn Dorset, ei gymryd oddi wrth Ulwen, uchelwr Eingl Sacsonaidd a gaiff ei enwi yn Llyfr Domesday, sef yr arolwg o Loegr a gomisiynwyd gan William ac a gwblhawyd yn 1086, fel perchennog arno yng nghyfnod y Brenin Edward y Cyffeswr.

Does neb yn gwybod yn union pryd y bu farw Walter de Eureux, ond mae Llyfr Domesday yn enwi ei fab Edward yn Iarll Salisbury ac yn arglwydd ar y portffolio mawr hwn o eiddo. Esblygodd yr enw teuluol i Devereux, a pharhaodd wahanol ddisgynyddion i fod yn ffigurau dylanwadol yn Lloegr am dros bum canrif, gan gynnwys Robert Devereux, Iarll Essex, un o ffefrynnau Elizabeth I, ond a gafodd ei ddienyddio yn 1601 am arwain gwrthryfel yn ei herbyn.



Mark Rathbone

**Ffynhonnell C**

Dyfyniad o Lyfr Domesday 1086 (iaith wedi'i diweddaru er mwyn eglurder):

*Mae Edward Iarll Salisbury yn dal tir Canford y Brenin. Ulwen oedd yn ei ddal yng nghyfnod y Brenin Edward, a'r treth arno oedd dau ddeg pump croen. Mae tir ar gyfer un deg wyth aradr; o'r tir hwn mae un ar ddeg croen a hanner yn y demaen, ac ynddo mae tair aradr a naw taeog a thri deg pump bilain a phedwar deg bordar gyda 15 aradr. Mae dwy felin yn talu 15 swllt ac mae 118 erw o ddolydd; mae porfeydd sy'n ddwy filltir Ffrengig o ran hyd a lled: coedwig sy'n un filltir Ffrengig o hyd a hanner milltir Ffrengig o led. Mae tri bordar ac un tŷ yn Wimborne sy'n perthyn i'r faenor hon ac ynddi mae un filltir Ffrengig o brysgwydd.*

**Ffynhonnell B**

Cegin John o Gaunt, rhan sydd wedi goroesi o faenor ganoloesol Cranford yn Dorset, a oedd wedi'i ddal gan Edward de Eureux, Iarll Salisbury yn ystod teyrnasiad William I.

**2** Astudiwch Ffynhonnell B. Pa nodweddion o'r adeilad hwn sy'n ei gwneud hi'n amlwg ei fod wedi cael ei adeiladu yn yr oesoedd canol?

**3** Darllenwch Ffynhonnell C. Beth mae'r disgrifiad hwn o un o'r maenorau oedd wedi'i dal gan Edward, Iarll Salisbury, yn ei awgrymu oedd y prif reswm pam y gorchmynnodd William yr arolwg o Loegr sy'n cael ei alw'n Llyfr Domesday?

## Ffynhonnell CH

Tapestri Bayeux, sy'n dangos William y Concwerwr yn trafod gyda'i hanner brodyr, yr Esgob Odo o Bayeux a Robert o Normandi.




The Picture Art Collection / Alamy Stock Photo

**4** Astudiwch Ffynhonnell CH. Cafodd Tapestri Bayeux ei gomisiynu gan Odo, Esgob Bayeux. Sut allai hwn fod wedi dylanwadu ar ddarluniad yr olygfa a ddangosir yn y rhan yma o'r tapestri?

## Ffynhonnell D

Castell Dover a roddwyd i Odo gan ei frawd y Brenin William yn 1067



Heritage Image Partnership Ltd / Alamy Stock Photo

## Dyrchafiad Odo

Enghraifft mwy enwog o uchelwr Normanaidd, neu ddrwgenwog, oedd Odo o Bayeux. Dechreuodd Odo, a oedd yn hanner brawd i William Dug Normandi, ddod yn amlwg ymhell cyn concwest Lloegr. Roedd yn dal i fod yn ei arddegau pan gafodd ei benodi gan William yn Esgob Bayeux. Nid arwydd o dduwioldeb crefyddol mawr oedd hyn ond adlewyrchiad o'r ffaith fod esgobaeth Bayeux yn arbennig o gyfoethog, a bod William yn awyddus i'w chadw yn y teulu.

Doedd hyn yn ddim byd o'i gymharu â'r dyrchafiad a dderbyniodd Odo gan ei hanner brawd ar ôl Brwydr Hastings. Yn 1067, ag yntau bellach yn frenin Lloegr, rhoddodd William deitl Iarll Caint i Odo, a oedd yn cynnwys dros 180 o arglwyddiaethau yn y sir, yn ogystal â Chastell Dover, cadarnle strategol ar gyfer amddiffyn arfordir y de. Roedd Odo hefyd yn dal tir mewn o leiaf 12 sir arall, o Swydd Rydychen i Norfolk, gydag incwm o £3,000 y flwyddyn, a olygai mai ef oedd tirfeddiannwr cyfoethocaf y wlad. Pan fyddai William yn treulio amser yn ôl yn Normandi, byddai Odo yn ymddwyn fel rhaglyw, yn llywodraethu Lloegr ar ran y brenin.

Ond, yn wahanol i amrywiol aelodau'r teulu Devereux a chwaraeodd eu rhan yn hanes Lloegr am hanner mileniwm, golygai trachwant ac uchelgais rheibus Odo fod cyfnod ei bŵer yn gymharol fyr. Mae croniclwyr yn ei gyhuddo o ormesu'r tlawd a chymryd llawer iawn o dir a chyfoeth yn anghyfreithlon iddo ef ei hun. Mae Thomas o Marlborough yn ei alw'n 'flaidd rheibus' ac ysgrifenna Orderic Vitalis amdano'n 'gormesu'r holl drigolion o raddau uchel ac is'.

Ni ddylai'r enw gwael haeddiannol hwn am ymddygiad milain fod wedi bygwth ei safle, cyhyd â bod gan William hyder ynddo. Ond fe achosodd Odo drwbl diangen yn gyflym i'w hanner brawd y brenin. Yn 1067, yn ei flwyddyn gyntaf fel Iarll

**Ffynhonnell DD**

Dyfyniad o *Historia Ecclesiastica* gan Orderic Vitalis, a gwblhawyd yn 1142:

*Roedd y Saeson yn griddfan dan yr iau Normanaidd, ac yn dioddef gorthrwm gan yr arglwyddi balch a oedd yn anwybyddu gorchmynion y brenin. Roedd yr is-arglwyddi oedd yn gwarchod y cestyll yn gormesu'r holl drigolion brodorol, o radd uchel ac isel gan bentyrru beichiau cywilyddus arnynt. Roedd yr Esgob Odo a William FitzOsbern, is-raglywiaid y brenin, wedi chwyddo cymaint â balchder fel na fyddent yn gweld yn dda i glywed pledion rhesymol y Saeson na rhoi barn ddiduedd arnynt. Pan oedd eu milwyr arfog yn euog o ysbeilio a threisio byddent yn eu hamddiffyn â grym, gan fynegi eu dicter yn fwy treisiol yn erbyn y rhai a oedd yn cwyno am y camwedd creulon a ddioddefwyd ganddynt.*

Caint, fe wnaeth ei ormes dros y bobl yno ysgogi gwrthryfel, ac yn ddiweddarach fe ddechreuodd anghydfod hir gyda Lanfranc, a oedd wedi disodli Stigand fel Archesgob Caergaint yn 1070.

## Cwymp Odo

Yn 1076, dwysaodd ei gynnen gyda'r Archesgob Lanfranc ymhellach, a chyhuddwyd Odo o dwyllo esgobaeth Caergaint a'r brenin ei hun o symiau enfawr o arian. Fe'i cafwyd yn euog ac fe'i gorfodwyd i roi llawer o eiddo yn ôl. Yn waeth fyth, yn 1082 fe wnaeth William ddarganfod bod Odo, heb yn wybod iddo a heb gydsyniad ganddo, wedi bod yn cynllunio cyrch milwrol i'r Eidal, gan ei orymestyn ei hun mewn cais rhyfeddol i gael ei urddo'n bab. Cymerodd William ei holl diroedd yn ôl a threuliodd Odo flynyddoedd yn y carchar. Dim ond ar ôl i William farw yn 1087 y cafodd ei ryddhau.

Mae'n ymddangos, fodd bynnag, fod uchelgais diflino Odo yn golygu nad oedd neb gwell nag ef am achosi trwbl. Roedd ewyllys William yn nodi ei fod yn gadael gorsedd Lloegr i'w drydydd mab, William Rufus, ond roedd Odo wedi cynghreirio'i hun gyda mab hynaf William, Robert o Normandi. Arweiniodd Odo wrthryfel aflwyddiannus yn erbyn William Rufus yn 1088. Roedd Odo yn ffodus i osgoi cael ei ddienyddio am frad, ond yn lle hynny, cafodd ei alltudio i Normandi, ac ni ddychwelodd i Loegr o gwbl. Bu farw yn Sicily yn 1097.

## Yr uchelwyr Eingl Normanaidd

Mae haneswyr yn aml yn cyfeirio at yr uchelwyr Normanaidd fel yr uchelwyr Eingl Normanaidd, oherwydd, er gwaethaf cipio tir yr arglwyddi Eingl Sacsonaidd a gosod Normaniaid yn eu lle yn ystod teyrnasiad William I, roedd priodasau rhwng aelodau'r ddwy genedl yn golygu bod y rhaniad rhyngddynt yn mynd yn fwy a mwy aneglur. Er enghraifft, cafodd yr arglwydd Eingl Sacsonaidd Waltheof a'i wraig Judith, nith William I, dri o blant, felly roedd ganddynt linach Sacsonaidd a Normanaidd cymysg.

**Ffynhonnell E**

Y GONCWEST NORMANAIDD 1066, concwest Lloegr gan William Dug Normandi. Fe wnaeth hyn dipyn mwy na dim ond darparu hanes Lloegr â'i ddyddiad enwocaf. Roedd yn golygu gorfodi teulu brenhinol newydd, dosbarth llywodraethu newydd, diwylliant newydd ac iaith newydd; o fewn ychydig o flynyddoedd i 1066, roedd y Saeson bellach yn fwyafrif oedd dan ormes yn eu gwlad eu hunain.

Nid dyma oedd bwriad William... Fodd bynnag, fe wnaeth cyfres o wrthryfeloedd gan y Saeson dros y blynyddoedd nesaf achosi problemau sylweddol i'r fyddin oresgynnol Normanaidd gymharol fach, a gorfodwyd William i gymryd camau eithafol fel Anrheithio'r Gogledd. Erbyn 1075, roedd William wedi penderfynu mai'r unig ffordd y byddai'n ddiogel oedd petai'r rheolaeth dros dir Lloegr mewn dwylo Ffrengig, a dechreuodd ar bolisi o drosglwyddo llawn.

O *The History Today Companion to British History*, 1995

Er bod teitlau a thiroedd yr uchelwyr Eingl Normanaidd yn ddyledus i haelioni William y Concwerwr, yn raddol fe lwyddon nhw i gael pŵer sylweddol iddyn nhw eu hunain, nad oedd modd i William na'i olynwyr ei anwybyddu. Roedd ganddyn nhw bwerau helaeth dros yr ardaloedd lle rhoddwyd eiddo iddynt, oedd yn eu galluogi i godi byddinoedd a rheoli tir. Yn y pen draw roedden nhw'n ddarostyngedig i sofraniaeth y brenin, fel y dangosodd cwymp Odo, ond byddai llawer o frenhinoedd canoloesol Lloegr yn profi trafferthion gyda 'deiliaid gorbwerus' – arglwyddi oedd â sylfaen leol ac a oedd yn ddigon pwerus i herio'r brenin oedd yn teyrnasu.

Gyda chyfathrebu a theithio yn araf ac yn anodd, yn enwedig i'r rhannau mwy anghysbell yn y deyrnas, dim ond o bryd i'w gilydd y byddai awdurdod brenhinol yn ymyrryd â'r pwer lleol oedd gan yr arglwyddi hyn. Ar un olwg, nhw oedd llywodraethwyr newydd Lloegr gymaint ag oedd William y Concwerwr. HS

### Crynodeb

- Ar ôl dod yn frenin Lloegr yn 1066, gwobrwyodd William I ei gefnogwyr Normanaidd gyda theitlau a thiroedd Lloegr, a gymerwyd oddi wrth ei elynion Saesnig.
- Er bod William yn fodlon i ddechrau i rai o'r uchelwyr Eingl Sacsonaidd i gadw eu tiroedd, profodd sawl un nad oedd modd ymddiried ynddyn nhw ac ar ôl cyfres o wrthryfeloedd, roedd yr iarll Eingl Sacsonaidd olaf wedi mynd erbyn 1076.
- Yr uchelwr Normanaidd mwyaf drwgenwog oedd Odo o Bayeux, hanner Brawd William, a ddaeth yn un o'r tirfeddianwyr mwyaf cyfoethog yn y wlad. Ond yn y diwedd arweiniodd ei drachwant a'i uchelgais at ei gwymp. Ef oedd y cyntaf o'r 'dinasyddion gorbwerus' Eingl Normanaidd a fyddai'n achosi problemau i lawer o frenhinoedd canoloesol Lloegr.

**5** Darllenwch Ffynhonnell DD. Ysgrifennodd Orderic Vitalis y cofnod hwn o'r Goncwest Normanaidd tua 70 mlynedd ar ôl y digwyddiadau y mae'n eu disgrifio. Gan roi enghreifftiau o'r ffynhonnell hon, esboniwch sut mae'r iaith mae'n ei defnyddio yn dweud wrthym gyda phwy y mae'n cydymdeimlo yn y gwrthdaro hwn rhwng y Normaniaid a'r Saeson.

**6** Esboniwch ystyr y termau canlynol:

**a** maenor
**b** tŷ brenhinol Wessex
**c** esgobaeth
**ch** brad
**d** sofraniaeth
**dd** Tapestri Bayeux
**e** Anrheithio'r Gogledd

**7** Darllenwch Ffynhonnell E. Yn eich barn chi, pa mor gywir a chytbwys yw'r crynodeb hwn o'r goncwest Normanaidd? Esboniwch eich ateb.